Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Gwenllian
# Cydweli
# Sir Gaerfyrddin
# SA17 4UT

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk
Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 03/07/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gymraeg Gwenllian wedi ei lleoli yng nghanol tref hanesyddol Cydweli yn Sir Gaerfyrddin.  Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r dref ei hun a'r ardal wledig sydd o amgylch.

Mae 114 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 18 o blant meithrin amser llawn. Maent wedi'u trefnu mewn pum dosbarth gyda thri ohonynt yn ddosbarthiadau o oed cymysg.  Mae niferoedd y disgyblion wedi cynyddu yn ddiweddar.

Mae'r ysgol wedi adnabod oddeutu 28% o'r disgyblion fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys nifer fach o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig.  Mae gan tua 26% o'r disgyblion hawl i dderbyn cinio am ddim, sy'n uwch na'r ffigwr cenedlaethol.

Y Gymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu ac anelir at sicrhau bod pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Saesneg yw'r brif iaith yn y cartref i tua 56% o'r disgyblion.  Mae ychydig o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2008.

Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn Ionawr 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Gwenllian yn 2013-2014 yw £3,602.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £8,152 a'r lleiafswm yw £2,941.  Mae Ysgol Gymraeg Gwenllian yn safle 61ain o'r 106 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn dangos cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd Cymraeg;
- bod llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau rhif yn y gweithgareddau dysgu;
- bod y staff yn darparu amrediad o brofiadau dysgu diddorol i'r disgyblion o fewn a thu allan i'r ysgol;
- bod safon yr addysgu yn dda ar y cyfan;
- bod rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos agweddau da tuag at ddysgu; a
- bod yr ysgol yn gymuned gynhwysol gydag ethos cartrefol a gofalgar.

Fodd bynnag:

- mae canlyniadau asesiadau disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn amrywio a heb fod yn cymharu'n ffafriol dros gyfnod â pherfformiad ysgolion tebyg;
- mae cyflawniad bechgyn yn anwastad, yn arbennig ar y lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 2;
- nid yw'r drefn gynllunio wedi'i sefydlu'n ddigon cadarn i sicrhau datblygiad cynyddol mewn medrau ar draws y cwricwlwm;
- nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion asesu eu cynnydd a'u datblygiad; ac
- mae cyfraddau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd diwethaf.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth glir sydd yn seiliedig ar godi safonau a gwelliant parhaus;
- bod tîm o staff addysgu a chynnal ymroddedig;
- bod cyswllt priodol rhwng y broses hunanarfarnu â blaenoriaethau'r cynllun datblygu;
- bod y cynllun datblygu yn cynnig agenda addas i symud yr ysgol ymlaen; a
- bod y cydweithio agos gyda'r corff llywodraethol, rhieni a phartneriaid eraill yn dylanwadu'n adeiladol ar waith yr ysgol.

Fodd bynnag:

- nid yw'r cynlluniau gwella sydd ar waith wedi datblygu i gael effaith lawn ar ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad;

- nid yw rôl arweinyddol yr athrawon sydd â chyfrifoldebau ysgol gyfan wedi'i hymsefydlu'n llawn; ac
- nid yw rôl strategol y corff llywodraethol o ran arfarnu a blaengynllunio wedi'i datblygu'n llawn.

## Argymhellion

A1 Gwella cyflawniad y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2

A2 Gwella cyflawniad bechgyn, yn enwedig ar y lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 2

A3 Gwella cyfraddau presenoldeb y disgyblion

A4 Cryfhau'r cynllunio i sicrhau bod medrau disgyblion o bob gallu yn cael eu datblygu'n gynyddol ar draws y cwricwlwm

A5 Gwella'r marcio a datblygu'r cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu cynnydd

A6 Datblygu rôl arweinyddol yr athrawon sydd â chyfrifoldebau ysgol gyfan

A7 Datblygu rôl strategol y corff llywodraethol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau sylfaenol lleiafrif y disgyblion wrth gychwyn yn yr ysgol islaw'r disgwyliedig. Mae craffu ar waith cyfredol y disgyblion yn eu llyfrau ac yn ystod y sesiynau dysgu yn dangos bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda. Gallant alw i gof dysgu blaenorol, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol yn eu gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa yn hyderus mewn sefyllfaoedd gwahanol. Mae ychydig o'r disgyblion yn cynnig ymatebion estynedig i safon dda iawn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n rhydd yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn dangos gafael sicr ar eirfa bynciol a chyffredinol wrth drafod eu gwaith. Mae llawer o'r disgyblion yn trafod ac yn mynegi barn yn hyderus yn y ddwy iaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae llawer o'r disgyblion yn sgwrsio am eu hoff gymeriadau a digwyddiadau yn eu llyfrau gyda dealltwriaeth dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gywir ac yn ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gallant drafod prif elfennau'r storïau a'r llyfrau maent yn eu hoffi neu ddim yn eu hoffi yn effeithiol. Gwna rhan fwyaf y disgyblion ddefnydd addas o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth o lyfrau ac oddi ar wefannau.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol gan ddechrau amrywio eu brawddegau a defnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir. Mae ychydig o'r disgyblion hŷn yn dechrau ysgrifennu'n estynedig wrth gofnodi eu profiadau dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddangos gafael sicr ar fedrau atalnodi. Gwnânt ddefnydd priodol o fedrau ail ddrafftio i wella ar eu hymdrechion cyntaf. Mae ychydig o'r disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig gan amrywio arddull yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau. Er hyn, prin yw'r enghreifftiau o ysgrifennu estynedig ar draws y pynciau. Mae safon llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn dda.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cyson ac yn cyflawni eu targedau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Mae llawer o ddisgyblion o bob gallu'n medru egluro'r prosesau y maent wedi'u defnyddio i gael yr ateb cywir neu ddod i gasgliad arbennig. Maent yn ymdrin â mesuriadau gwahanol ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth ar ffurf graffiau yn effeithiol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion afael gadarn ar ystod briodol o fedrau rhif. Maent yn cymhwyso eu medrau mewn tasgau mesur, siâp a thrin data gyda chywirdeb da. Maent yn casglu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd ac yn cyflwyno eu casgliadau yn gywir ar ffurf graffiau gwahanol mewn gwyddoniaeth a daearyddiaeth.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros gyfnod o ddwy flynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig o gymharu ag ysgolion tebyg â'r hawl i ginio am ddim yn anwastad. Mae perfformiad yr ysgol yn gyson yn y 50% uwch mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ond yn amrywio rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf mewn datblygiad mathemategol. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch yn dangos gwelliant yn 2013 ac yn codi o'r 25% isaf i'r 50% uwch mewn datblygiad mathemategol ac o'r 25% isaf i'r 50% is mewn medrau iaith.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig wedi bod yn anwastad o gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn dwy flynedd allan o'r pedair, mae'r canlyniadau wedi bod yn y 25% isaf ym mhob pwnc. Yn y ddwy flynedd arall, mae'r canlyniadau mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn y 50% is. Mewn Cymraeg, mae'r canlyniadau wedi amrywio rhwng y 50% uwch a'r 50% is.

Mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau uwch wedi amrywio rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf mewn Cymraeg a Saesneg, a rhwng y 25% uchaf a'r 50% is mewn mathemateg. Mewn gwyddoniaeth, mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn y 50% uwch yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae merched yn cyflawni'n well na bechgyn, yn enwedig ar y lefel ddisgwyliedig. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad merched yn well na bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig ac ar y lefel uwch yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Nid oes patrwm cyson o wahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim a'u cyfoedion.

### Lles: Digonol

Mae'r disgyblion i gyd yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae gan y disgyblion agweddau cadarnhaol at gadw'n iach ac maent yn deall beth yw nodweddion bwyta'n iach a'r effaith y mae'n ei chael ar y corff.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol fel unigolion ac o fewn eu grwpiau ac yn canolbwyntio'n dda ar eu tasgau. Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn ystod gwersi ac amser chwarae yn dda iawn. Maent yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion.

Mae'r disgyblion yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol ac yn cael cyfleoedd priodol i dderbyn cyfrifoldebau. Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cyfrannu'n gynhyrchiol at benderfyniadau ar ystod o faterion megis trefnu gweithgareddau codi arian at achosion da, datblygu'r ardd eco a chynllunio i sefydlu siop ffrwythau yn yr ysgol.

Drwy eu gweithgareddau dyddiol a thrwy gymryd rhan mewn cyngherddau, gwasanaethau a digwyddiadau cymunedol, mae'r disgyblion yn datblygu amrediad o fedrau personol a chymdeithasol sy'n eu paratoi'n effeithiol ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol.

O'u cymharu â ffigyrau ysgolion tebyg, mae lefelau presenoldeb disgyblion yn y 25% isaf yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Maent wedi codi yn y flwyddyn ddiwethaf i'r 50% uwch.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau sy'n bodloni diddordeb ac anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol. Mae'r ystod o weithgareddau allgyrsiol ynghyd ag ymweliadau yn cyfoethogi'r cwricwlwm ymhellach.

Mae trefn briodol i gyflwyno'r cwricwlwm drwy gyfres o themâu. Mae cynlluniau'r athrawon yn ddogfennau cynhwysfawr sy'n cynnig ystod o weithgareddau dysgu perthnasol i'r disgyblion. Caiff tasgau eu cynllunio'n briodol i gwrdd ag anghenion dysgu'r disgyblion ond nid yw'r disgyblion mwy abl bob amser yn derbyn digon o her.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol yn y gwersi i ddisgyblion ddatblygu eu medrau meddwl, cyfathrebu, rhifedd a TGCh. Mae'n gwneud cynnydd cadarn yn y defnydd o'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd ar gyfer mapio'r medrau. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ysgol gyfan ar hyn o bryd wedi'i ymsefydlu'n ddigon cadarn i sicrhau dilyniant yn y medrau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn effeithiol ac yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd da. Mae'r dimensiwn Cymreig yn nodwedd gref lle caiff y disgyblion ddysgu am enwogion, arlunwyr, awduron a chwedlau, yn ogystal â daearyddiaeth Cymru a'r ardal leol, yn llwyddiannus.

Mae disgyblion yn elwa o weithgareddau o fewn y cwricwlwm ac yn gyffredinol ar draws yr ysgol i ddatblygu ymwybyddiaeth sicr o werthoedd datblygiad cynaliadwy. Mae'r ymweliadau, a'r cysylltiadau niferus gydag ysgolion mewn gwledydd eraill yn Ewrop, yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn ac adlewyrchir hyn yn y gwersi. Mae cyd-gynllunio yn sicrhau trefn glir i'r addysgu ac yn cyfrannu at hybu cynnydd cyson yng ngwaith rhan fwyaf y disgyblion. Mae paratoi trwyadl, cyflwyniadau bywiog a thasgau diddorol yn sicrhau ymrwymiad gweithredol y disgyblion yn eu dysgu. Mae holi a rhyngweithio medrus a chyfleoedd pwrpasol i weithio fel parau a grwpiau yn hybu medrau llythrennedd y disgyblion yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae'r berthynas waith adeiladol rhwng yr oedolion a'r disgyblion yn creu amgylchedd dysgu cadarnhaol yn y dosbarthiadau.

Mewn ychydig iawn o sesiynau, mae cyflymder anwastad yn amharu ar effeithiolrwydd y wers ac nid yw tasgau yn cynnig cyfleoedd addas i'r disgyblion ymestyn eu dysgu. Ar adegau, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i ysgrifennu'n estynedig.

Mae trefniadau asesu a chofnodi'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn galluogi athrawon i fonitro ac olrhain cynnydd pob disgybl yn rheolaidd. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'r wybodaeth i ddarparu cymorth ychwanegol i'r disgyblion yn ôl y galw.

Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n rheolaidd ond nid yw'r sylwadau bob amser yn nodi yn ddigon clir yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella safon eu gwaith. Mae rhai cyfleoedd i'r disgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain, ynghyd â gwaith eu cyfoedion, ond nid yw'r drefn wedi'i sefydlu'n gyson ar draws yr ysgol.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn darparu gwybodaeth fuddiol iddynt am ddatblygiad a chynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar gyda threfniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae profiadau dysgu gwerthfawr yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae gweithgareddau ar draws y cwricwlwm, sesiynau addoli ar y cyd a'r rhaglenni amser cylch yn cynnig profiadau buddiol sydd yn cyfrannu at hyn.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r cysylltiadau adeiladol gyda gwasanaethau arbenigol, megis gwasanaethau cymdeithasol a meddygol, a swyddogion lles addysg, yn sicrhau cymorth cadarn i ddisgyblion, staff a rhieni fel ei gilydd. Mae'r ysgol yn rhoi trefniadau priodol ar waith i wella lefelau presenoldeb y disgyblion ac mae'r rhain yn dechrau cael effaith gadarnhaol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Caiff anghenion disgyblion eu hadnabod yn gynnar gan yr athrawon. Mae ystod eang o raglenni ymyrraeth yn cynnig cefnogaeth addas i'r disgyblion ac yn gymorth i godi safonau. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r rhieni a'r disgybl.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynnes sy'n adlewyrchu ei natur gynhwysol. Caiff y disgyblion gyfle cyfartal i fanteisio ar bob agwedd o'r ddarpariaeth addysgol a chymdeithasol. Mae'r staff yn hyrwyddo parch at amrywiaeth a chydraddoldeb yn effeithiol drwy weithgareddau perthnasol megis dysgu am ddiwylliannau a chrefyddau eraill, cysylltiadau gyda gwledydd yn Ewrop, a chyfrannu at ymgyrchoedd elusennol.

Er bod prif adeilad yr ysgol yn hen, mae'r rhaglen o welliannau wedi datblygu'r cyfleusterau dysgu a sicrhau safle mwy diogel i'r disgyblion. Er hyn, mae'r cabanau symudol ar gyfer y disgyblion hŷn yn ddiffygiol o ran lle. Nid oes cae chwarae ar y

safle ond mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o gyfleusterau lleol ar gyfer chwaraeon. Mae ardaloedd allanol y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n adnodd gwerthfawr i gefnogi profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae arddangosfeydd symbylus a lliwgar o waith y disgyblion yn dathlu eu cyflawniad ac yn cefnogi'r dysgu. Mae digon o adnoddau ar gyfer gwersi a gweithgareddau cyffredinol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae arweiniad pwrpasol y pennaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr ysgol. Mae ei weledigaeth, sy'n seiliedig ar hyrwyddo gwelliannau parhaus, yn cael ei rhannu'n llwyddiannus gydag aelodau'r staff, rhieni a llywodraethwyr. Mae'r trefniadau diweddar sy'n canolbwyntio ar godi safonau gwaith disgyblion a chryfhau'r ddarpariaeth yn ddatblygiadau priodol i'r ysgol. Serch hynny, nid ydynt wedi cael digon o amser i ymsefydlu a chael effaith lawn ar gyraeddiadau disgyblion.

Mae disgrifiadau swydd pob aelod o staff yn adlewyrchu eu rolau yn glir. Mae'r athrawon sydd â chyfrifoldebau ychwanegol mewn agweddau ar y ddarpariaeth yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol. Mae'r cydweithio agos ymhlith yr athrawon a'r staff cymorth o ran datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn enghraifft o hyn.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, ac yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol ac o lawer o'r meysydd sydd angen eu datblygu. Er hynny, mae lleiafrif o'r corff yn newydd ac megis dechrau mae eu rôl weithredol wrth fonitro a phennu blaenoriaethau datblygu.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae athrawon yn datblygu'r defnydd o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn effeithiol yn eu cynllunio.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r pennaeth yn gwneud defnydd adeiladol o ystod o weithdrefnau ar gyfer arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad. Mae'n casglu tystiolaeth fanwl drwy ddadansoddi data, arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a chasglu safbwyntiau disgyblion a rhieni. Caiff ei gefnogi gan aelodau'r uwch dîm reoli sy'n datblygu eu rôl arweinyddol ym mhrosesau arfarnu'r ysgol drwy, er enghraifft, y gweithdrefnau i hyrwyddo a monitro medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Mae'r pennaeth yn rhannu a thrafod casgliadau'r prosesau arfarnu yn briodol gyda'r holl staff.

Mae'r corff llywodraethol yn derbyn gwybodaeth lawn gan y pennaeth am berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae ychydig o'r llywodraethwyr profiadol yn ymweld â'r dosbarthiadau ac yn trafod gyda staff. Mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu eu gwybodaeth gyffredinol am ansawdd y ddarpariaeth yn briodol. Mae'r pennaeth yn cynnig hyfforddiant pellach i'r llywodraethwyr newydd sy'n dechrau eu paratoi i ymgymryd â rôl fwy gweithredol yn y broses arfarnu.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen gytbwys sy'n adnabod cryfderau a nifer o'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n briodol i bennu targedau addas mewn cynllun datblygu ysgol cynhwysfawr. Mae cyfrifoldebau, costau, amserlen weithredu ynghyd â meini prawf llwyddiant wedi'u nodi'n glir. Nid yw systemau hunanarfarnu'r ysgol hyd yma wedi cael effaith lawn ar wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaethau strategol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn profiadau dysgu.

Mae partneriaeth gref gyda rhieni, sy'n gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu'n frwdfrydig tuag at nifer o weithgareddau. Mae hyn yn cynnwys codi arian sylweddol bob blwyddyn i ychwanegu at offer a chyfarpar. Mae'r buddsoddiad sylweddol mewn prynu offer TGCh ychwanegol wedi ehangu'r ddarpariaeth i'r disgyblion.

Mae'r pennaeth yn cymryd rôl flaenllaw wrth hybu cysylltiadau niferus â'r gymuned leol sy'n ehangu profiadau dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Mae nifer o ymwelwyr lleol yn cefnogi disgyblion trwy rannu medrau ac arbenigeddau. Mae'r bartneriaeth werthfawr gyda garddwr lleol i ddatblygu gardd eco'r ysgol yn enghraifft o hyn.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu perthynas dda gyda'r cylch meithrin lleol ar sail ymweliadau rheolaidd. Mae athrawon a chymorthyddion y Cyfnod Sylfaen yn cynnal clwb ar gyfer disgyblion meithrin ar ôl ysgol. Mae'r ddarpariaeth yn llwyddo i gryfhau'r bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol.

Mae partneriaeth strategol effeithiol gydag ysgolion y clwstwr lleol i gydweithio a rhannu arfer dda. Mae partneriaeth adeiladol gyda'r ysgolion uwchradd. Enghraifft o hyn yw'r cyswllt llwyddiannus gyda'r ysgol uwchradd leol sy'n trefnu calendr o weithgareddau amrywiol ar gyfer pob mis o'r flwyddyn. Mae'r gweithgareddau yn cael effaith gadarnhaol ar systemau pontio ac yn sicrhau trefniadau trosglwyddo esmwyth.

Mae gweithgareddau safoni a chymedroli diweddar rhwng ysgolion yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae staff yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae trefniadau addas ar gyfer sicrhau amser i'r athrawon gynllunio, paratoi ac asesu. Mae'r cymorthyddion yn cynnig cefnogaeth effeithiol sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar brofiadau disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cadw golwg fanwl ar y sefyllfa gyllidol ac wedi ymdrechu'n galed i reoli'r gwariant yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Erbyn hyn, mae'r sefyllfa ariannol yn fwy sefydlog a'r diffygion yn y gyllideb wedi eu dileu. Mae defnydd priodol o grantiau, a chyfraniad ffrindiau'r ysgol a'r rhieni, yn ychwanegu'n sylweddol at y cyllid ac yn cyfoethogi'r ystod o adnoddau. Mae adnoddau dysgu yn cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad athrawon.  Mae'r holl staff yn elwa ar gyfleoedd hyfforddi sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus ac yn gymorth i godi safonau drwy'r ysgol.

Mae'r staff yn cyfrannu'n rheolaidd at rwydweithiau o arfer broffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill ar agweddau megis darpariaeth y Cyfnod Sylfaen, gweithdrefnau asesu, a datblygu medrau ysgrifennu disgyblion.  Mae'r profiadau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau gwaith disgyblion.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn debyg i gyfartaleddau'r teulu o ysgolion yn 2012 ond yn is yn 2013. Dros gyfnod o ddwy flynedd, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn is neu yn debyg i gyfartaleddau'r teulu o ysgolion mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, a datblygiad mathemategol. Mewn datblygiad personol a chymdeithasol, roedd y canlyniadau yn uwch na chyfartaleddau'r teulu yn 2012 ond yn is yn 2013.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd y canlyniadau mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y 50% uwch. Mewn datblygiad mathemategol, a datblygiad personol a chymdeithasol, roedd y canlyniadau yn y 50% is yn 2012 a'r 25% isaf yn 2013.

Dros gyfnod o ddwy flynedd, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant uwch (deilliant 6), yn is na'r teulu mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad mathemategol. Roedd y canlyniadau mewn datblygiad personol a chymdeithasol yn uwch na'r teulu yn 2012 ac yn is yn 2013. O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd y canlyniadau mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ymhlith y 25% isaf yn 2012 a'r 50% is yn 2013. Mewn datblygiad mathemategol, gwelwyd cynnydd o'r 25% isaf yn 2012 i'r 50% uwch yn 2013. Mewn datblygiad personol a chymdeithasol, gwelwyd gostyngiad o'r 25% uchaf yn 2012 i'r 50% is yn 2013.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros gyfnod o bedair blynedd, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y dangosydd pwnc craidd yn is na'r teulu yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd ond gwelwyd tuedd ar i fyny yn 2013 i fod yn gymharus â chyfartaleddau'r teulu. Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn is na chyfartaleddau'r teulu ym mhob pwnc yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Roedd canlyniadau disgyblion yn y Gymraeg yn 2013 yn uwch na chyfartaleddau'r teulu. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd y canlyniadau yn amrywio rhwng y 50% is a'r 25% isaf ar gyfer y dangosydd pwnc craidd a'r canran a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.

Mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 5) yn amrywio dros gyfnod o gymharu â chyfartaleddau'r teulu. Mewn Saesneg, mae'r canlyniadau yn gyson is na chyfartaleddau'r teulu. Mewn Cymraeg a mathemateg, mae'r canlyniadau wedi bod yn uwch na chyfartaleddau'r teulu mewn dwy allan o'r pedair blynedd. Mewn gwyddoniaeth, mae'r canlyniadau yn debyg i, neu yn uwch na'r teulu yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae'r canlyniadau yn amrywio rhwng y 25% isaf a'r 50% uwch mewn Saesneg, y 50% uwch a'r 50% is mewn Cymraeg, y 25% uchaf a'r 50% is mewn mathemateg. Mewn gwyddoniaeth, mae'r canlyniadau wedi bod yn y 50% uwch yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae merched yn cyflawni'n well na bechgyn, yn enwedig ar y lefel ddisgwyliedig. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad

merched yn well na’r bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig ac ar y lefel uwch yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.

Nid oes patrwm cyson o wahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sydd â’r hawl i ginio am ddim a’r disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid - ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 44 | 44<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 44 | 42<br>95%<br>92% | 2<br>5%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 44 | 44<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 44 | 44<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 44 | 44<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 44 | 43<br>98%<br>96% | 1<br>2%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 44 | 44<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 44 | 44<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 44 | 43<br>98%<br>91% | 1<br>2%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 44 | 33<br>75%<br>95% | 11<br>25%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 44 | 40<br>91%<br>77% | 4<br>9%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 44 | 43<br>98%<br>84% | 1<br>2%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 19 | 15<br>79% | 4<br>21% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 19 | 16<br>84% | 3<br>16% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 19 | 15<br>79% | 3<br>16% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 19 | 11<br>58% | 6<br>32% | 1<br>5% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 19 | 9<br>47% | 9<br>47% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 19 | 15<br>79% | 4<br>21% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 19 | 13<br>68% | 6<br>32% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 19 | 9<br>47% | 9<br>47% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 19 | 13<br>68% | 5<br>26% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 19 | 11<br>58% | 8<br>42% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 19 | 13<br>68% | 6<br>32% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 19 | 10<br>53% | 6<br>32% | 1<br>5% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 19 | 10<br>53% | 7<br>37% | 1<br>5% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 19 | 17<br>89% | 2<br>11% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 19 | 12<br>63% | 6<br>32% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 19 | 11<br>58% | 6<br>32% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 18 | 7<br>39% | 6<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 19 | 12<br>63% | 5<br>26% | 2<br>11% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 19 | 14<br>74% | 5<br>26% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Miss Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Mr Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Tegwen Ellis | Arolygydd Cymheiriaid |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.